**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Panel Gweithredol**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Llun 18 Hydref 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm.

**Yn bresennol**

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Glerc); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 GORFFENNAF 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 Y DIWEDDARAF AM COVID-19

6.1 Oherwydd trafferthion technegol, nid oedd y PSTC Fairhead yn gallu rhoi gwybodaeth am yr effaith ddiweddaraf yr oedd COVID-19 yn ei chael ar y Gwasanaeth. Felly, **PENDERFYNWYD anfon yr wybodaeth ar e-bost at yr Aelodau yn dilyn y cyfarfod.**

7 DATGANIAD ARCHWILIEDIG O GYFRIFON A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/21

7.1 Roedd y PSTC MacArthur wedi cyflwyno Datganiad archwiliedig o Gyfrifon 2020/21, a oedd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn cadarnhau barn archwilio ddiamod.

7.2 Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2021, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi penderfynu dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad archwiliedig terfynol o Gyfrifon 2021 i'r Panel Gweithredol.

7.3 Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried, yn fanwl, y datganiad o gyfrifon, y datganiad llywodraethu blynyddol a'r adroddiad ar yr archwiliad o gyfrifon yn ei gyfarfod yn ystod y bore ar 18 Hydref 2021. Roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi argymell bod yr holl ddogfennau'n cael eu cymeradwyo gan y Panel Gweithredol.

7.4 Rhoddodd M Edwards o Archwilio Cymru esboniad o'r gwaith a wnaed gan yr archwilwyr ar y datganiad o gyfrifon, a nododd yr Aelodau fod yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau barn archwilio ddiamod. Cadarnhawyd hefyd fod Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod yn dangos cydymffurfiaeth â Fframwaith CIPFA/Solace, sef *Delivering Good Governance in Local Government Framework* (2016).

7.5 O ran y crynodeb o'r cywiriadau a wnaed, nodwyd bod dau gamddatganiad a ganfuwyd gan yr archwilwyr yn dal heb eu cywiro a chadarnhaodd yr archwilydd nad oedd y rhain yn rhai o bwys. Fodd bynnag, roedd angen tynnu sylw'r Aelodau atynt oherwydd eu bod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Aelodau tuag at y broses adrodd ariannol.

7.6 Tynnwyd sylw'r Aelodau hefyd at y cynllun gweithredu ar "Sut mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r "Cynllun Gweithredu Gwella Llywodraethu ers 2020/21?" a nodwyd bod y camau'n parhau i symud ymlaen.

7.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) cael argymhelliad y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Hydref 2021;**

**(ii) cymeradwyo'r sefyllfa alldro archwiliedig a'r perfformiad fel y nodir yn Natganiad o Gyfrifon 2020/21;**

**(iii) cymeradwyo'r trefniadau llywodraethu a'r cynllun gweithredu fel yr amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21;**

**(iv) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod; a**

**(v) nodi'r llythyr cynrychiolaeth a gynigir.**

8 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL 2021 – MEDI 2021

8.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch y Gwasanaeth mewn perthynas â digwyddiadau yn ystod y chwe mis cyntaf o flwyddyn ariannol 2021/22, perfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant, a gweithgarwch nodedig arall.

8.2 Cafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am yr adroddiad, a mater o bwys arbennig oedd canfod cartrefi sydd heb larwm mwg. Roedd y Cadeirydd yn annog yr holl Aelodau i rannu'r negeseuon y mae'r Gwasanaeth yn eu rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol ac i rannu'r neges ei bod yn bwysig cael larwm mwg gweithredol yn y cartref ac i geisio canfod aelodau bregus o'r gymuned a allai fod heb larwm o hyd.

8.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

9 GOSOD CYLLIDEB 2022/23

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am broses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio, a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2022/23.

9.2 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol fod angen i'r Awdurdod osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r gwaith rhagbaratoi sydd ei angen i bennu'r gyllideb sylfaenol wedi cychwyn, sy'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol a'r risgiau.

9.3 Cafodd yr Aelodau wybod bod y PSTC MacArthur wedi cwrdd â Chyfarwyddwyr Cyllid yr holl awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, a'i bod wedi esbonio proses yr Awdurdod, gan gynnwys yr angen i ddiwygio'r gyllideb i fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Atgoffwyd yr Aelodau o'r heriau a amlinellwyd gan y Prif Swyddog Tân yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Medi 2021. Caiff y rhain eu symud ymlaen mewn gweithdy i'r aelodau i'w gynnal ar 2 Tachwedd, a'u cynnwys yn y gyllideb a gyflwynir i'r aelodau ym mis Rhagfyr 2021.

9.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23; a**

**(ii) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth i gyllideb refeniw 2022/23 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2021.**

10 ADOLYGIAD O'R AMCANION GWELLA A LLESIANT YNG NGHYNLLUN CORFFORAETHOL YR AWDURDOD 2021-24

10.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad er mwyn i'r Aelodau adolygu amcanion hirdymor yr Awdurdod Tân ac Achub sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24.

10.2 Atgoffwyd yr aelodau fod yr Awdurdod, ym mis Mawrth ymhob blwyddyn, yn cyhoeddi Cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, gan nodi'r amcanion gwella a llesiant y mae wedi cytuno arnynt ac amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cynllun Corfforaethol diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod yn ymwneud â'r cyfnod 2021-24.

10.3 Er nad yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn pennu pa mor aml y mae'n rhaid i gorff cyhoeddus newid ei amcanion, mae gofyniad i gynnal adolygiad blynyddol o'i amcanion llesiant er mwyn asesu a ydynt yn dal yn berthnasol a phriodol. Felly, dros y misoedd nesaf, bydd y swyddogion yn edrych eto ar gynnwys Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24 er mwyn diweddaru'r rhestrau o gamau arfaethedig sy'n sail i bob amcan strategol.

10.4 Dywedodd y PST, o ran yr asesiad sefyllfaol a gyflwynodd i'r Aelodau yn y cyfarfod diwethaf, fod yr adolygiadau arfaethedig i'w comisiynu yn cyd-fynd yn dda â'r cylch cynllunio blynyddol a'r amcanion hirdymor. Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r PST ac yn teimlo hefyd, ar sail yr Asesiad Perfformiad Blynyddol a gymeradwywyd gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod diwethaf, nad oedd unrhyw arwydd y byddai diwygio neu newid y set bresennol o saith amcan hirdymor yn rhywbeth a fyddai o fudd ar adeg mor gynnar.

10.5 **PENDERFYNWYD cytuno bod yr Awdurdod wedi cadarnhau ei fwriad i symud ymlaen â'i saith amcan hirdymor cyfredol yn 2022/23, a gofynnwyd i fersiwn ddiweddaredig o Gynllun Corfforaethol 2021-24 gael ei gyflwyno i'r Awdurdod ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2022.**

11 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

11.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r hyn sydd ar gofrestr risgiau strategol yr Awdurdod, a hynny yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

11.2 Darparodd y PSTC Millington ragor o wybodaeth am oblygiadau gweithredol y risgiau sydd ar y gofrestr. Rhoddodd fanylion y gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r amser i sefydlu gwrthfesurau i leihau difrifoldeb y risgiau a hefyd y dulliau diogelu a'r mesurau rheoli sy'n bodoli.

11.3 Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi adolygu'r gofrestr risgiau strategol ar 14 Hydref 2021 ac roeddent wedi'u bodloni fod popeth posibl yn cael ei wneud i liniaru rhag risgiau.

11.4 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol a ganfuwyd ac sy'n wynebu'r Awdurdod.**

12 MATERION BRYS

12.1 Dim.

Ar yr adeg hon, diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am ddod i'r cyfarfod, a gofynnodd iddynt adael y cyfarfod er mwyn i'r Aelodau symud i ran II o'r cyfarfod.

13 CADERNID Y PRIF DÎM RHEOLI A'R ADOLYGIAD O'U CYFLOGAU

13.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn cynnig cyfansoddiad ar gyfer Prif Dîm Rheoli'r Gwasanaeth. Roedd hefyd yn cynnig mabwysiadu set o egwyddorion fel y gallai adolygiadau'r Awdurdod o uwch gyflogau a gynhelir nawr ac yn y dyfodol fod yn seiliedig ar gyfraddau cyflogau tebyg sy'n cael eu talu gan awdurdodau tân ac achub sy'n gweithredu mewn ardaloedd tebyg o ran maint poblogaeth.

13.2 Tra roedd y PST yn bresennol, bu'r Aelodau'n trafod cyfansoddiad arfaethedig Prif Dîm Rheoli'r Gwasanaeth, a'i bod yn bwysig i'r Gwasanaeth fwrw ymlaen i ddychwelyd at strwythur sefydledig Prif Dîm Rheoli sy'n cynnwys swydd Prif Swyddog Cynorthwyol. Roedd yr Aelodau'n cytuno â'r cynnig, a **PHENDERFYNWYD**

**(i) nodi argymhelliad y Prif Swyddog Tân ynglŷn â chyfansoddiad Prif Dîm Rheoli'r Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol;**

Ar yr adeg hon, aeth y PST allan o'r cyfarfod. Aeth y Dirprwy Glerc â'r Aelodau drwy weddill yr adroddiad.

13.3 Ar ôl ystyried y cynnwys yng nghyd-destun asesiad sefyllfaol y PST a gyflwynwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Medi 2021, cefnogodd yr Aelodau y cynigion ac yn unfrydol **PENDERFYNWYD**

**(ii) argymell i'r Awdurdod, yn ei gyfarfod a drefnwyd ar gyfer 25 Hydref 2021, ei fod yn mabwysiadu'r saith egwyddor ynghylch cyflogau a nodir yn yr adroddiad; a bod y cyflogau diwygiedig fel y nodir yn yr adroddiad yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2021.**